# Agenda - Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a fideogynadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 16 Hydref 2024

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Marc Wyn Jones**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddHinsawdd@senedd.cymru

## Hybrid

**Rhag-gyfarfod preifat** (09.15-09.30)

**Cyfarfod cyhoeddus** (09.30-11.45)

**1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**

(09.30)

**2 Atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030 - sesiwn dystiolaeth gyda'r Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**

(09.30-11.00) (Tudalennau 1 - 45)

Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig - Llywodraeth Cymru

Alice Teague, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran y Môr a Physgodfeydd - Llywodraeth Cymru

Claire Bennett, Cyfarwyddwr Newid Hinsawdd a Cynaliadwyedd Amgylcheddol - Llywodraeth Cymru

**Dogfennau atodol:**

Briff Ymchwil - Atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030

Papur - Llywodraeth Cymru

**Egwyl** (11.00-11.15)

## 3 Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Dŵr (Mesurau Arbennig) - Sesiwn dystiolaeth gyda'r Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

(11.15-11.45) (Tudalennau 46 - 53)

Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig - Llywodraeth Cymru

Adriana Kiss, Rheolwr Rhaglen Cyfarwyddebau Dŵr - Llywodraeth Cymru

Clare Fernandes, Dirprwy Gyfarwyddwr, Dŵr a Llifogydd - Llywodraeth Cymru

Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Dŵr (Mesurau Arbennig)

**Dogfennau atodol:**

Briff Ymchwil - Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Dŵr (Mesurau Arbennig)

## 4 Papurau i'w nodi (11.45)

### 4.1 Cynllun Masnachu Allyriadau y DU

(Tudalennau 54 - 55)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at y Cadeirydd mewn perthynas â Chynllun Masnachu Allyriadau y DU

### 4.2 Grŵp Rhyngweinidogol ar yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

(Tudalennau 56 - 57)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at y Cadeirydd mewn perthynas â'r Grŵp Rhyngweinidogol ar yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

### 4.3 Gwasanaeth Natur Cymru

(Tudalennau 58 - 59)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Wasanaeth Natur Cymru at y Cadeirydd mewn perthynas â Gwasanaeth Natur Cymru (Saesneg yn unig)

**4.4 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25**

(Tudalennau 60 - 63)

**Dogfennau atodol:**

Ymateb gan y Dirprwy Brif Weinidog, ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig i argymhellion 21, 43, 45 a 49 o adroddiad y Pwyllgor: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25

**4.5 Maes Awyr Caerdydd**

(Tudalennau 64 - 71)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol at y Prif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru mewn perthynas â Maes Awyr Caerdydd

Ymateb gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio at Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol mewn perthynas â Maes Awyr Caerdydd

**4.6 Deiseb P-06-1474 - Atal Cyfoeth Naturiol Cymru rhag cau canolfannau ymwelwyr Bwlch Nant yr Arian, Coed y Brenin ac Ynyslas**

(Tudalennau 72 - 73)

**Dogfennau atodol:**

Ymateb gan Brif Weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru at Glerc y Pwyllgor Deisebau mewn perthynas â chau canolfannau ymwelwyr ym Mwlch Nant yr Arian, Coed y Brenin ac Ynyslas (Saesneg yn unig)

**4.7 Gwasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru**

(Tudalen 74)

**Dogfennau atodol:**

Ymateb gan y Cadeirydd i Louis Coiffait-Gun, Prif Swyddog Gweithredol, CILIP, mewn perthynas â Gwasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru

### 4.8 Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Ynni Prydain Fawr

(Tudalennau 75 - 79)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Cadeirydd at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio mewn perthynas ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ynni Prydain Fawr

Llythyr gan y Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio mewn perthynas ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ynni Prydain Fawr

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn ac o ddechrau'r cyfarfod ar 20 Tachwedd

(11.45)

## Cyfarfod preifat (11.45-12.30)

## 6 Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law o dan eitem 2

## 7 Trafod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Dŵr (Mesurau Arbennig)

(Tudalennau 80 - 89)

**Dogfennau atodol:**

Nodyn cyfreithiol ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Dŵr (Mesurau Arbennig) (Saesneg yn unig)

## 8 Trafod yr adroddiad drafft ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Gwasanaethau Rheilffordd i Deithwyr (Perchnogaeth Gyhoeddus)

(Tudalennau 90 - 93)

**Dogfennau atodol:**

Adroddiad drafft ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Gwasanaethau Rheilffordd i Deithwyr (Perchnogaeth Gyhoeddus) (Saesneg yn unig)

## 9 Trafod yr adroddiad drafft ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Ynni Prydain Fawr

(Tudalennau 94 - 98)

**Dogfennau atodol:**

Adroddiad drafft ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ynni Prydain Fawr (Saesneg yn unig)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ymchwiliad i Fioamrywiaeth
## Atal a gwrthdroi colledion natur erbyn 2030

23/08/2024

Atal a gwrthdroi colledion bioamrywiaeth yw un o heriau amgylcheddol mwyaf taer yr oes sydd ohoni. Yn 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru argyfwng natur ac mae wedi rhoi strategaethau newydd a strategaethau wedi'u diweddaru ar waith sydd â'r nod o atal a gwrthdroi colledion natur. Mae nifer o'r strategaethau hyn wedi deillio o'r targedau y cytunwyd arnynt yn COP15 ac argymhellion dilynol yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth.

Nod yr adroddiad tystiolaeth hwn yw nodi'r modd mae ein polisïau presennol, ein dyletswyddau cyllido a'n dyletswyddau statudol, ein trefniadau monitro

cyfredol a'n dulliau newydd yn cyfrannu at atal a gwrthdroi colledion natur.

# Cynnwys

**1. Polisïau a mentrau cyfredol sy'n cyfrannu at atal a gwrthdroi colledion natur. ........ 4**

Polisïau a mentrau Llywodraeth Cymru ........ 4

Cynlluniau ehangach y DU ........ 7

**2. Trefniadau cyfredol ar gyfer monitro a gwerthuso bioamrywiaeth 9**

Trefniadau monitro a gwerthuso cyfredol ........ 9

**3. Mae angen dulliau newydd o atal a gwrthdroi colledion natur .... 12**

**4. Crynodeb ........ 14**

**Atodiad A ........ 15**

Dyletswyddau statudol ........ 15

**Atodiad B ........ 17**

**Atodiad C ........ 19**

# 1. Polisïau a mentrau cyfredol sy'n cyfrannu at atal a gwrthdroi colledion natur.

1. Ers dechrau ar y gwaith o fonitro 380 o rywogaethau Cymru yn ofalus ym 1994, mae Sefyllfa Natur Cymru 2023 yn dangos bod niferoedd y rhywogaethau hynny wedi lleihau 20% ar gyfartaledd. Mae pryfed, fflora a mamaliaid llai cyfarwydd i ni o bosibl ymhlith y bywyd gwyllt sydd wedi dioddef y colledion mwyaf yn eu poblogaeth. Hefyd, mae rhywogaethau adnabyddus fel yr Eog a'r Gylfinir wedi gweld dirywiad sylweddol yng Nghymru.

2. Yn ôl yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR) 2020, mae'r pwysau allweddol sy'n effeithio ar golledion bioamrywiaeth ar y tir, yng Nghymru a ledled y DU, yn deillio o'r canlynol: dulliau rheoli amaethyddol; newid hinsawdd; trefoli; llygredd; newid hydrolegol; rhywogaethau estron goresgynnol a rheoli coetiroedd. Mae'r bennod sy'n ymwneud â'r môr yn nodi bod pwysau allweddol ar amgylchedd y môr yn deillio o newid hinsawdd, rhai gweithgareddau dynol, rhywogaethau estron a mewnbynnau o ddalgylchoedd dŵr croyw (h.y. llygredd).

3. Mae gan Lywodraeth Cymru amrywiaeth eang o bolisïau a mentrau a all helpu i wella cyflwr cynefinoedd a gwrthdroi colledion bioamrywiaeth trwy fynd i'r afael â'r achosion sylfaenol a'r elfennau sy'n sbarduno'r dirywiad. Mae gan nifer o'r polisïau a'r mentrau hyn ffrydiau cyllido – nodir eu manylion yn Atodiad B.

## Polisïau a mentrau Llywodraeth Cymru

4. **Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth** Gweithiodd y cyn-Weinidog Newid Hinsawdd gyda grŵp o arbenigwyr ac ymarferwyr allweddol i gynnal Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth er mwyn nodi a blaenoriaethu cyfres o gamau gweithredu i ystyried sut gallwn ddiogelu 30% o dir, dŵr croyw ac amgylchedd morol y wlad erbyn 2030, mewn ffordd a fydd yn cyflawni er budd natur ac yn bodloni ein rhwymedigaethau rhyngwladol. Mae'r grŵp craidd, gyda chymorth grwpiau arbenigol allweddol eraill, yn parhau i gyflawni yn erbyn yr argymhellion cychwynnol a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2022.

5. Cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru ym mis Rhagfyr 2015 ac fe'i diweddarwyd yn 2020. Mewn dwy ran, mae'n ymdrin â'r **Strategaeth Bioamrywiaeth Genedlaethol** a'r **Cynllun Gweithredu ar gyfer Cymru**. Mae'r cynllun yn cael ei ddiweddaru ar hyn o bryd a bydd yn parhau ar waith hyd nes y caiff ei ddiwygio er mwyn ymateb i Fframwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol Kunming-Montreal o dan **Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol** ac argymhellion yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth. Mae'r Cynllun

Gweithredu Adfer Natur yn nodi'r ffordd orau o ategu ymrwymiadau ac amcanion strategol y Gweinidogion, yn cynnwys y rhai a nodir yn y Rhaglen Lywodraethu.

6. Cyhoeddwyd Gweithredu ar Newid Hinsawdd: Strategaeth Ymgysylltu â'r Cyhoedd 2023 – 2026 newydd ym mis Gorffennaf 2023, sy'n sylw at y cysylltiad rhwng yr argyfyngau hinsawdd a natur a'r angen i gymryd camau mewn perthynas â'r ddau argyfwng. Mae'r strategaeth yn cynnig canolbwynt ar gyfer yr ymgyrch genedlaethol, gan geisio cynnig ffynhonnell wybodaeth ddibynadwy i'r cyhoedd ynglŷn â'r argyfyngau hinsawdd a natur.

7. Mae'r **Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru** yn cynnwys y nod i ddefnyddio atebion sy'n seiliedig ar natur i reoli llifogydd ym mhob dalgylch afon mawr, gan ymestyn cynefinoedd gwlyptiroedd a choetiroedd ynghyd â chyfoethogi bioamrywiaeth a gwella cadernid ecosystemau.

8. Mae'r Strategaeth Coetiroedd i Gymru, a gyhoeddwyd yn 2018, yn nodi gweledigaeth a thargedau hirdymor ar gyfer coed, coetiroedd a choedwigoedd yng Nghymru. Mae'r blaenoriaethau'n cynnwys dulliau rheoli cynaliadwy, creu swyddi a phlannu 43K ha o goetiroedd newydd erbyn 2030.

9. Mae **Strategaeth Gwarchod Adar Môr Cymru**, sy'n cael ei llunio ar hyn o bryd, yn ymdrin â dau ddeg naw o rywogaethau adar môr sy'n bridio ac nad ydynt yn bridio. Bydd yn nodi amcanion ar gyfer gwella cadwraeth a chadernid y rhywogaethau hyn. Disgwylir y bydd y cynllun gweithredu cyntaf, a fydd yn cynnwys argymhellion allweddol, yn cael ei gyhoeddi eleni.

10. Mae'r Polisi Adnoddau Naturiol yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer rheoli ein hadnoddau naturiol a'n hecosystemau a chaiff ei ategu gan yr **Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR)**, sylfaen dystiolaeth gynhwysfawr gan **Cyfoeth Naturiol Cymru**, sy'n gwerthuso'r modd y caiff ein hadnoddau naturiol a'n hecosystemau eu rheoli'n gynaliadwy yng Nghymru.

11. Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn cynnwys polisïau sy'n ategu'r gwaith o ddiogelu, adfer a chyfoethogi ein hamgylchedd morol. Rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid a Cyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu canllawiau cynllunio'n ymwneud â chyfleoedd i adfer ecosystemau, gan ategu'r gwaith o gyflawni a chynnal Statws Amgylcheddol Da (GES) a Statws Ecolegol Da (GES).

12. Cyhoeddwyd Polisi Cynllunio Cymru – Rhifyn 12 ym mis Chwefror 2024. Cafodd y Polisi SoDdGA, y Dull Stepwise, y polisi Seilwaith Gwyrdd a'r polisïau Coed a Choetiroedd eu cryfhau a'u diweddaru er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng natur.

13. Ym mis Chwefror 2023, lansiwyd y Cynllun Gweithredu Sgiliau Sero Net ac mae'n cyflawni ein hargymhellion ar gyfer 30x30, fel rhan o Gymru 'gryfach, decach a gwyrddach'. Mae'n cydnabod pwysigrwydd sgiliau o ran cefnogi ein heriau sero net trwy roi'r opsiynau a'r cyfleoedd iawn i'n gweithlu presennol ac i weithlu'r dyfodol.

14. Mae'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd yn canolbwyntio ar adfer, cyfoethogi a diogelu ecosystemau mawndir er mwyn cyfoethogi bioamrywiaeth, lliniaru newid hinsawdd a gwella cyflenwad ac ansawdd dŵr. Mae hyn yn cyfrannu at Strategaeth Mawndiroedd yr IUCN yn y DU. Er bod y **gwaharddiad ar gynhyrchion mawn** wedi'i ohirio oherwydd Etholiad Cyffredinol y DU, rydym wedi ymrwymo o hyd i ddeddfu dros hyn yng Nghymru.

15. Mae **Cynllun Gweithredu Afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA)** yn strategaeth gynhwysfawr sydd a'r nod o leihau'r pwysau ar ddalgylchoedd afonydd ACA yng Nghymru. Mae'r cynllun yn nodi camau gweithredu, amserlenni a chyfrifoldebau clir ar gyfer ymdrin â llygredd, yn enwedig llygredd ffosfforws, a hefyd ar gyfer mynd i'r afael â chyfyngiadau cynllunio sy'n effeithio ar ddatblygu tai fforddiadwy.

16. Mae'r **Cynllun Gweithredu ar gyfer Rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig** a'r Adroddiad Blynyddol yn nodi camau gweithredu allweddol a gymerir bob blwyddyn naill ai i liniaru'r pwysau neu i ddeall mwy am y sefyllfa fel y gellir gwella'r dulliau rheoli. Mae'r dogfennau ar gyfer eleni wrthi'n cael eu llunio.

17. Rydym wedi ymrwymo o hyd i ymestyn ein rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig o dan y Rhaglen Cwblhau Rhwydwaith MPA. Rydym yn cydweithio â rhanddeiliaid i ganfod safleoedd posibl, gan fynd ati i asesu effeithiau economaidd-gymdeithasol.

18. Nod y Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio, a lansiwyd yn 2013, yw sicrhau poblogaethau iach o bryfed peillio yng Nghymru a chodi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd pryfed peillio a'r modd y dylid eu rheoli. Yn 2016, lansiodd y **Tasglu Pryfed Peillio**, sy'n cyflawni'r Cynllun Gweithredu, fenter o'r enw Caru Gwenyn i annog cymunedau a sefydliadau i gymryd camau cadarnhaol er budd pryfed peillio.

19. Lansiwyd yr ymgyrch Iddyn Nhw yn 2022. Mae'n cydnabod y gall newid y drefn torri glaswellt gynorthwyo pryfed peillio a phob math o fywyd gwyllt arall. Nod yr ymgyrch yw codi ymwybyddiaeth o fanteision ehangach yr arfer hwn ymhlith y cyhoedd a'r rhai sy'n rheoli glaswelltiroedd.

20. **Parciau Cenedlaethol a Thirweddau Cenedlaethol** (a elwid gynt yn Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol). Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynyddu gweithgarwch adfer natur mewn Parciau Cenedlaethol a Thirweddau Cenedlaethol trwy gynorthwyo i ddatblygu cynlluniau gweithredu â blaenoriaeth ar gyfer adfer natur. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddynodi Parc Cenedlaethol newydd yng Ngogledd-ddwyrain Cymru.

21. Lansiwyd y **Goedwig Genedlaethol** yn 2020. Mae'r ymrwymiad hwn yn ymestyn dros ddegawdau a'r nod yw creu coetiroedd cadarn o'r radd flaenaf, a fydd yn hygyrch ac yn gydgysylltiedig. Nod y rhwydwaith yw darparu mannau ar gyfer hamddena a natur, helpu i ddal a storio carbon a chyflenwi pren cynaliadwy ar gyfer y diwydiant adeiladu.

22. Mae'r **rhaglen Rhwydweithiau Natur** yn ceisio gwella cyflwr, maint a chysylltedd ein safleoedd gwarchodedig, gan greu rhwydweithiau ecolegol cadarn. Mae'n allweddol o ran helpu i gyflawni nifer o dargedau'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang, yn cynnwys 30x30. Gweler Atodiad B i gael manylion am gyllid.

23. Mae **Partneriaethau Natur Lleol** yn bartneriaethau strategol sy'n dwyn rhanddeiliaid ynghyd i gydweithredu ar ddiogelu a chyfoethogi natur ar lefel leol. Maent yn cydgysylltu camau gweithredu, yn rhannu adnoddau ac yn dylanwadu ar bolisïau.

24. Sefydlwyd y **Tasglu Bioamrywiaeth** i gyflawni ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i ymwreiddio bioamrywiaeth ym mhopeth a wnawn. Nod y tasglu mewnol hwn oedd prif ffrydio bioamrywiaeth ledled Llywodraeth Cymru trwy gyfrwng mentrau fel **Nabod Natur** (rhaglen hyfforddiant staff), trwy gynorthwyo i ddatblygu targedau a thrwy weithredu ein Dyletswydd Adran 6.

## Cynlluniau ehangach y DU

25. Mae Fframwaith Bioamrywiaeth y DU, a gyhoeddwyd ar 9 Mai 2024, yn nodi sut bydd pedair gwlad y DU yn gweithio ar y cyd i fodloni ymrwymiadau rhyngwladol yn ymwneud â bioamrywiaeth.

26. Cyhoeddwyd **Targedau Cenedlaethol y DU** ar wefan y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol ar 1 Awst 2024, gan fodloni'r ymrwymiad rhyngwladol.

27. Nod **Strategaeth Forol y DU** yw cyflawni a chynnal Statws Amgylcheddol Da ar gyfer dyfroedd morol y DU, gan sicrhau eu bod yn lân, yn iach, yn ddiogel, yn gynhyrchiol ac yn fiolegol amrywiol. Caiff y strategaeth ei diweddaru bob chwe blynedd er mwyn adlewyrchu datblygiadau newydd o ran polisi a data

gwyddonol, gan sicrhau y gwneir cynnydd parhaus tuag at gyflawni nodau amgylcheddol a thuag at gydymffurfio â Rheoliadau'r Strategaeth Forol 2010.

28. Mae Strategaeth Rhywogaethau Estron Goresgynnol Prydain Fawr 2023 – 2030 yn cynnig fframwaith ar gyfer cyflwyno'r ymateb mwyaf effeithiol i atal, dileu a rheoli rhywogaethau estron goresgynnol. Hefyd, mae'n sail i'r modd yr awn ati i gyflawni targedau y cytunwyd arnynt yn rhyngwladol ar rywogaethau estron goresgynnol yma yng Nghymru.

# 2. Trefniadau cyfredol ar gyfer monitro a gwerthuso bioamrywiaeth

29. Mae fframweithiau monitro a fframweithiau tystiolaeth fforddiadwy ac effeithiol yn hollbwysig i olrhain ein cynnydd tuag at y targed 30x30 a'r uchelgais natur-bositif mwy hirdymor. Mae'r fframweithiau hyn yn sail i benderfyniadau ac maent yn galluogi dull rheoli addasol sy'n angenrheidiol i greu ecosystemau cadarn a all addasu i bwysau ehangach, fel newid hinsawdd. Ar hyn o bryd, caiff amrywiaeth o raglenni monitro bioamrywiaeth eu cynnal gan neu ar ran Llywodraeth Cymru.

## Trefniadau monitro a gwerthuso cyfredol

30. O dan arweiniad Canolfan Ecoleg a Hydroleg y DU (UKCEH), a chyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, caiff cymorth amaeth-amgylcheddol ei werthuso trwy gyfrwng y Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd (ERAMMP).

31. Caiff y gwaith o fonitro stociau a thueddiadau rhywogaethau dangosol allweddol ei wneud trwy gyfrwng cyfres o raglenni goruchwylio dan arweiniad gwyddoniaeth dinasyddion y Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC). Mae rhan helaeth o'r data a gesglir trwy gyfrwng y rhaglenni hyn yn llywio adroddiadau am dueddiadau bioamrywiaeth ar lefel Cymru e.e. trwy gyfrwng adroddiadau SoNaRR Cyfoeth Naturiol Cymru, Atlas y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol a'r Cyfleuster Gwybodaeth Bioamrywiaeth Byd-eang (GBIF).

32. Mae Porth Gwybodaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr (GBNNSIP) yn cynnig mynediad at fapiau dosbarthiad a gwybodaeth arall, yn cynnwys 'system hysbysu' ar gyfer pob rhywogaeth estron ym Mhrydain.

33. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn arwain gwaith 'Monitro Safonau Cyffredin', sef dull a roddir ar waith yn y DU i fesur cyflwr nodweddion h.y. rhywogaethau a chynefinoedd hysbysedig a chymwys, mewn safleoedd o dan warchodaeth statudol (sef Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA), Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA)).

34. Mae Living Wales yn cynnig system fonitro a sylfaen dystiolaeth genedlaethol ar gyfer nodweddion tirwedd ac amgylchedd Cymru, gan gyfuno delweddau lloeren, arolygon ar lawr gwlad a thechnolegau synhwyro o bell, i gefnogi bioamrywiaeth trwy gyfrwng SoNaRR a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

35. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i roi rhaglen fonitro reolaidd ar waith i fonitro rhywogaethau pysgod.

36. Monitro Ansawdd Dŵr. Mae data monitro dibynadwy ac amser real yn hanfodol os ydym am ddeall tueddiadau mewn ansawdd dŵr a rhoi ymyriadau polisi effeithiol ar waith. Gan weithio gyda rhanddeiliaid, rydym yn parhau i ddatblygu rhwydwaith monitro ystwyth ac integredig.

37. Y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd. Mae'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd yn cynnwys monitro gweithgareddau, monitro nodweddion hydrolegol a monitro ymatebion ecolegol. Cyhoeddir holl ddata'r gwaith adfer ar Borth Data Mawndiroedd Cymru a chaiff adroddiadau cynnydd eu cyhoeddi ar wefan y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd. Mae'r gwerthusiad pum mlynedd cyntaf o'r Rhaglen hon wedi'i drefnu ar gyfer 2025.

38. Mae'r Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol yn rhaglen dreigl dros bum mlynedd sy'n cael ei chydgysylltu gan Forest Research. Mae'n monitro cyflwr coetiroedd a choed ym Mhrydain Fawr.

39. Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru. Rydym yn comisiynu adolygiad annibynnol o ddulliau cynllunio morol. Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried sut gallwn ddatblygu ymhellach ein fframwaith cynllunio morol er mwyn darparu cyfeiriad gofodol gwell, gan gydbwyso cymorth ar gyfer ynni adnewyddadwy a diogelu'r amgylchedd morol.

40. Ansawdd Aer. Un o ymrwymiadau allweddol ein Strategaeth Ansawdd Aer Genedlaethol a'n Rhaglen Lywodraethu oedd cyflwyno Deddf Aer Glân i Gymru, sy'n nodi targedau ar gyfer llygryddion ac sy'n rhoi sylw i ganllawiau ansawdd aer diweddaraf Sefydliad Iechyd y Byd.

41. Strategaeth Forol y DU – Rhaglenni Monitro. Rhaglenni monitro manwl ar gyfer ymdrin â dangosyddion allweddol o dan wahanol elfennau ecosystem yn yr amgylchedd morol.

42. Cynnydd o ran Argymhellion yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth. Caiff rhaglen waith barhaus ei chyflawni gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid ac adroddir am gynnydd trwy gyfrwng yr adroddiad cynnydd chwemisol a'r datganiad ysgrifenedig dilynol.

43. Gan fod Monitro Safonau Cyffredin yn ddrud i'w weithredu, mae'r Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth yn ystyried dulliau newydd ac arloesol o fesur cynnydd yn fwy effeithiol tuag at gyflawni'r targed 30x30.

44. Bydd deddfwriaeth newydd a gyflwynir yn ystod tymor presennol y Senedd yn ymgorffori'r Fframwaith Natur-Bositif er mwyn cynnwys cylch monitro, asesu ac adrodd effeithiol ar gyfer y targedau bioamrywiaeth newydd, er mwyn cynyddu atebolrwydd a thryloywder.

# 3. Mae angen dulliau newydd o atal a gwrthdroi colledion natur

45. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig nifer o ddulliau newydd ar gyfer atal a gwrthdroi colledion natur erbyn 2030, gan gydweddu ag ymrwymiadau rhyngwladol a phwysleisio cynaliadwyedd, cadwraeth bioamrywiaeth a chyfraniad y gymuned. Dyma'r dulliau allweddol:

46. Bydd y **Bil Targedau Llywodraethu Amgylcheddol a Bioamrywiaeth** yn cael ei gyflwyno ym mis Mehefin 2025. Mae'r cwmpas arfaethedig yn cynnwys sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol, ailgyflwyno egwyddorion amgylcheddol yr UE, a chyflwyno targedau ar gyfer diogelu bioamrywiaeth a delio â ffactorau sy'n peri straen i fioamrywiaeth yng Nghymru.

47. Bwriedir i'r **Cynllun Ffermio Cynaliadwy** ddisodli'r systemau cymorth amaethyddol presennol, gan dalu ffermwyr am weithredu arferion cynaliadwy sy'n cyfoethogi bioamrywiaeth. Mae'r cynllun hwn yn rhoi pwyslais ar ddarparu nwyddau cyhoeddus ac adfer natur trwy reoli tir yn gynaliadwy, yn cynnwys Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Disgwylir i'r cynllun gael ei lansio yn 2026.

48. Mae **Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol (Cymru) 2021** yn cynnig cyngor, arweiniad a chymorth ariannol i fusnesau fferm ar gyfer lleihau allyriadau amonia ac ocsid nitrus a gwella cynlluniau rheoli maethynnau. Mae'r Rheoliadau'n gymwys i holl ffermydd Cymru a byddant ar waith yn llwyr erbyn mis Ionawr 2025. Bydd yr adolygiad pedair blynedd o effeithiolrwydd y Rheoliadau yn cael ei gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2025.

49. **Cyllid Cynaliadwy** – rydym yn datblygu dull strategol newydd o ymdrin â chyllid cynaliadwy er mwyn ein galluogi i gyflymu a chynyddu graddfa'r adferiad natur. Nod y gwaith hwn yw cynyddu ac amrywiaethu'r cyllid sydd ar gael, ond sicrhau ei uniondeb llwyr, ei fod yn osgoi gwyrddgalchu a'i fod yn ymgysylltu â chymunedau lleol, gan sicrhau hefyd y bydd cymunedau lleol yn elwa arno. Er mwyn llywio'r gwaith hwn, mae Llywodraeth Cymru yn comisiynu adroddiad gan Finance Earth i ystyried model cyflawni cynaliadwy ar gyfer bioamrywiaeth.

50. Rydym wedi ymrwymo i gyhoeddi cyfres o **Egwyddorion Buddsoddi Cynaliadwy** sydd wedi'u cyd-ddatblygu a chynnal ymgynghoriad arnynt. Bwriad yr egwyddorion yw cynyddu ac amrywiaethu'r cyllid sydd ar gael, fel y gallwn ymateb yn effeithiol i'r argyfwng natur a'r pwysau sy'n sbarduno colledion bioamrywiaeth – yn cynnwys newid hinsawdd, llygredd, a rheoli adnoddau

naturiol mewn ffordd anghynaliadwy. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi crynodeb gweithredol o adroddiad Finance Earth, ochr yn ochr â'r egwyddorion.

51. Caiff dau brosiect peilot eu rhoi ar waith: er mwyn cynorthwyo i ddatblygu Cronfa MARINE Cymru, sef cronfa wirfoddol i wella'r amgylchedd morol, ac er mwyn cyflymu'r gwaith o ddatblygu cyfalaf naturiol a thâl am fodelau gwasanaethau ecosystemau mewn Tirweddau Dynodedig.

52. Hefyd, rydym yn gysylltiedig â mentrau cyllid cynaliadwy ar lefel y DU, gan gydnabod yr angen am safonau cyson. Mae hyn yn cynnwys y gwaith parhaus gyda'r Sefydliad Safonau Prydeinig i helpu i ddatblygu safonau cydnabyddedig ar gyfer cyllid gwyrdd a chynaliadwy a chynorthwyo marchnadoedd ariannol i esgor ar ganlyniadau amgylcheddol cadarnhaol.

53. Bydd Fforwm Carbon Glas newydd yng Nghymru yn dwyn ynghyd rwydwaith o ymarferwyr yng Nghymru i rannu gwybodaeth ac i gynyddu'r profiad a'r arbenigedd sydd eisoes ar dwf yng Nghymru, fel y gellir mynd i'r afael â chwestiynau polisi sy'n benodol i Gymru, yn ogystal â phennu anghenion ymchwil ac ysgogi rhaglenni ymchwil mwy o bosibl.

54. Mae Partneriaeth Moroedd ac Arfordiroedd Cymru (PMaA Cymru) yn cyflawni tair ffrwd waith er mwyn ategu ecosystemau morol cadarn ac argymhellion yr archwiliad dwfn mewn perthynas â chynyddu capasiti, codi ymwybyddiaeth a gwella sgiliau – gan ddatblygu llythrennedd cefnforol, gwella buddsoddiad hirdymor a chynyddu capasiti i bennu cyfleoedd a heriau lleol a rhoi camau gweithredu ar waith.

# 4. Crynodeb

55. Mae strategaeth ehangach Llywodraeth Cymru ar gyfer atal bioamrywiaeth rhag dirywio, hyrwyddo adferiad ecosystemau a sicrhau dyfodol cynaliadwy i Gymru yn integreiddio'r polisïau a'r mentrau a nodir yn yr adroddiad tystiolaeth hwn. Trwy gyfuno'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur, dulliau cynaliadwy o reoli'r tir a'r môr, diwygiadau polisi a deddfwriaethol, gweithredu ar yr hinsawdd, ymgysylltu â chymunedau, monitro, ac addysgu'r cyhoedd, nod Llywodraeth Cymru yw creu amgylchedd bioamrywiol a chadarn a all gynnal llesiant ecolegol a dynol, gan alinio ag ymrwymiadau cenedlaethol a rhyngwladol yn cynnwys Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang Kunming-Montreal.

56. Gan gydnabod bod yr argyfyngau hinsawdd a bioamrywiaeth wedi'u cydblethu, mae'r adroddiad yn tynnu sylw at yr angen i gydgysylltu camau gweithredu, fel yr adlewyrchir yn Gweithredu ar Newid Hinsawdd: Strategaeth Ymgysylltu â'r Cyhoedd 2023-2026, lle ymdrinnir â newid hinsawdd fel rhywbeth sy'n peri straen i natur a rhywbeth sy'n sbarduno colledion natur.

57. Cydnabyddwn hefyd y bydd angen i'r Llywodraeth gyfan a'r Gymdeithas gyfan ymateb i'r argyfwng bioamrywiaeth, os ydym am roi natur ar lwybr adferiad.

# Atodiad A

### Dyletswyddau statudol

Mae gan Lywodraeth Cymru nifer o ddyletswyddau statudol sy'n cynnwys ymrwymiadau'n ymwneud â bioamrywiaeth, megis:

| Deddfwriaeth | Disgrifiad |
|---|---|
| Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 | Adran 6 – Y ddyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau: mae'n ofynnol i bob awdurdod cyhoeddus gynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth, ac wrth wneud hynny, dylent hefyd hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau. Er mwyn gwneud hyn, mae angen sicrhau bod ystyriaethau bioamrywiaeth yn rhan annatod o weithgareddau, polisïau, cynlluniau a phrosiectau awdurdodau cyhoeddus.<br><br>Adran 7 – Rhestrau Bioamrywiaeth: Rhaid i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi rhestrau o rywogaethau a chynefinoedd pwysig iawn at ddiben cynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth yng Nghymru.<br><br>Mae'r Cynllun Adfer Natur yn nodi blaenoriaethau ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac mae'n cynnwys ymrwymiadau i ddiogelu bioamrywiaeth. |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | Rhaid i gyrff cyhoeddus weithio tuag at nodau sy'n cynnwys cael amgylchedd naturiol iach a all gynnal cadernid cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ac a all addasu i newid. |
| Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 | Maent yn galluogi diogelu rhywogaethau gwyllt a chynefinoedd y tir a'r môr, yn cynnwys dynodi Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA). Rhaid i awdurdodau cyhoeddus gymryd camau i gynnal neu wella'r rhywogaethau a'r cynefinoedd naturiol hyn. |
| Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 | Mae'n diogelu anifeiliaid a phlanhigion gwyllt, mae'n rheoli'r gwaith o ryddhau rhywogaethau 'anfrodorol' ac mae'n rheoli rhywogaethau 'estron goresgynnol'. Hefyd, mae'n dynodi ac yn diogelu Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). Ymhellach, mae'r ddeddf yn rhoi gwarchodaeth gyfreithiol i hawliau tramwy cyhoeddus. |
| Rheoliad 1143/2014 yr UE (Rheoliad Rhywogaethau Estron Goresgynnol yr UE) | Mae'n dargadw Rheoliad 1143/2014 yr UE mewn cyfraith ddomestig. Mae'n gosod cyfyngiadau llym ar restr o 'rywogaethau o bryder arbennig' – oherwydd effeithiau niweidiol y rhywogaethau hyn ledled Prydain Fawr, mae angen gweithredu ar y cyd. |
| Gorchymyn Rhywogaethau Goresgynnol Estron | Mae'n cynnwys darpariaethau'n ymwneud â throseddau, cosbau, gorfodi a thrwyddedu er mwyn bodloni gofynion |

| | |
|---|---|
| (Gorfodi a Thrwyddedu) 2019 | Rheoliad Rhywogaethau Estron Goresgynnol yr UE a ddargedwir. |
| Rheoliadau'r Strategaeth Forol 2010 | Maent yn mynnu bod camau'n cael eu cymryd i sicrhau a chynnal Statws Amgylcheddol Da, trwy gyhoeddi Strategaeth Forol y DU a thrwy gynnal adolygiadau dilynol o'r strategaeth. |
| Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 | Mae'n sefydlu system ar gyfer rheoli'r amgylchedd morol, yn cynnwys dynodi Parthau Cadwraeth Morol i ddiogelu cynefinoedd a bywyd gwyllt pwysig y môr. |
| Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 | Mae'n mynnu bod yn rhaid ystyried bioamrywiaeth yn y broses gynllunio. Rhaid i Gynlluniau Datblygu Lleol gynnwys polisïau a fydd yn helpu i ddiogelu a gwella bioamrywiaeth. |
| Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 | Mae'n canolbwyntio'n bennaf ar iechyd y cyhoedd, ond mae'n cydnabod hefyd bwysigrwydd yr amgylchedd naturiol o ran hyrwyddo iechyd a llesiant, gan gynnal bioamrywiaeth yn anuniongyrchol. |
| Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) | Ei nod yw cynorthwyo ffermwyr ar ôl Brexit, gan ganolbwyntio ar arferion a dulliau rheoli tir cynaliadwy sy'n cyfoethogi bioamrywiaeth. |
| Rheoliadau Atal a Rheoli Llygredd (Amaethyddiaeth) | Rheoli llygredd sy'n deillio o weithgareddau ffermio, gan helpu i gynnal ecosystemau iach a chefnogi bioamrywiaeth trwy leihau effeithiau niweidiol. |
| Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 | Maent yn atal neu'n lleihau llygredd sy'n deillio o weithgareddau amaethyddol trwy gyfrwng safonau rheoli maethynnau sylfaenol. Rhaid i Weinidogion Cymru adolygu'r Rheoliadau bob pedair blynedd fan leiaf, gan eu diwygio os oes angen. |
| Rheoliadau Llosgi Grug a Glaswellt etc. (Cymru) 2008 | Maent yn rheoleiddio'r gwaith o losgi rhai mathau o lystyfiant tir uchel o dan reolaeth, megis grug, eithin a rhedyn. |

# Atodiad B

Cynlluniau cyllido Llywodraeth Cymru sy'n cyfrannu at atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn natur. Mae'r cynlluniau cyllido hyn ar gael ar hyn o bryd, neu maent wedi dod i ben yn ddiweddar ac mae'r broses werthuso ac adrodd yn cael ei chynnal.

| Cynlluniau Cyllido | Disgrifiad |
|---|---|
| Y Gronfa Rhwydweithiau Natur | Elfen o gyllid wedi'i dargedu yn y Rhaglen Rhwydweithiau Natur a gyflwynir mewn partneriaeth â Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a Cyfoeth Naturiol Cymru. Caiff y gronfa ei defnyddio'n benodol i ariannu prosiectau sy'n cynnal nodau'r Rhaglen Rhwydweithiau Natur, yn cynnwys meithrin gallu tra'n annog mentrau cyllid gwyrdd ac ymgysylltu â chymunedau.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i werthuso effeithiolrwydd y Gronfa Rhwydweithiau Natur yn 2025. |
| Lleoedd Lleol ar gyfer Natur | Elfen o gyllid wedi'i dargedu mewn Partneriaethau Natur Lleol, yn benodol ar gyfer prosiectau sy'n adfer ac yn creu mannau naturiol mewn cymunedau ledled Cymru. Mae'n rhoi pwyslais ar weithredu uniongyrchol i gyfoethogi bioamrywiaeth a gwella mynediad pobl at natur yn eu bywydau beunyddiol.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i werthuso effeithiolrwydd Partneriaethau Natur Lleol yn 2025. |
| Cynlluniau Buddsoddi Gwledig | Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi nifer o gynlluniau, yn cynnwys Cynllun Cynefin Cymru a'r Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig i gynorthwyo ffermwyr a thirfeddianwyr cyn i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy gael ei gyflwyno yn 2026. Bydd y cynlluniau hyn yn esgor ar fwy o gydweithredu rhwng ffermwyr, tirfeddianwyr a sefydliadau'r trydydd sector yng Nghymru. |
| Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy | Bwriad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yw disodli Glastir, Cynllun y Taliad Sylfaenol a chynlluniau amaeth-amgylcheddol blaenorol, gan fodloni'r pedwar amcan a nodir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) mewn perthynas â 'Rheoli Tir yn Gynaliadwy' a chan wobrwyo ffermwyr am sicrhau canlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy, yn cynnwys gwella cadernid ecosystemau. |
| Rheoli Llifogydd yn Naturiol | Yn dilyn ein Cynllun Adfer Natur, mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo ymyriadau naturiol ar gyfer rheoli perygl llifogydd pan fo modd iddynt esgor ar fanteision gwirioneddol i gymunedau. Yn y Rhaglen Lywodraethu, rydym yn ymrwymo i Reoli Llifogydd yn Naturiol ym mhob dalgylch afon mawr, gan ymestyn gwlyptiroedd a choetiroedd yn y broses. |
| Cynlluniau Cyfalaf Parciau Cenedlaethol a | Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu'r cynllun Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy, a'r flaenoriaeth yw adfer natur. |

| | |
|---|---|
| Thirweddau Cenedlaethol | Hefyd, mae'n gweithredu'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy ar gyfer Tirweddau Cenedlaethol, ar gyfer prosiectau lleol ar lawr gwlad.<br><br>Mae adolygiad o gyllid y cynllun Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy a'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy ar ôl 2025 yn edrych ar ffyrdd o gynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer gwaith adfer natur. |
| Cynllun Grant Rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig | Mae'r cynllun grant hwn gan Lywodraeth Cymru wedi'i seilio ar y Fframwaith Rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig sy'n cynnwys egwyddorion arweiniol rheoli ein rhwydwaith, ac mae wedi cynorthwyo gwaith ymchwil i bwysau fel newid hinsawdd neu ymyriadau uniongyrchol sy'n amrywio o raglen oruchwylio ar gyfer Ynys Gwales i fentrau sbwriel môr. |
| Cynllun y Môr a Physgodfeydd Cymru | Mae'n cynnig cyllid i ategu twf sy'n gynaliadwy'n amgylcheddol ac yn economaidd yn niwydiant bwyd môr Cymru ac mewn cymunedau arfordirol. |
| Y Gronfa Adeiladu Capasiti mewn Cymunedau Arfordirol | Nod y gronfa yw adeiladu capasiti, gan helpu cymunedau i gyflawni camau gweithredu cynaliadwy sy'n cynnal twf ac adferiad mewn ardaloedd morol ac arfordirol lleol. Bydd ar waith tan fis Mawrth 2025. |
| Adfer Morwellt a Morfeydd Heli | Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu'r gwaith o adfer morwellt a morfeydd heli ac mae'n parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu rhaglen adfer fwy hirdymor. |

# Atodiad C

### Astudiaeth achos 1

Mae Prosiect SIARC (Siarcod yn Ysbrydoli Gweithredu ac Ymchwil gyda Chymunedau), gyda chefnogaeth y Rhaglen Rhwydweithiau Natur, yn cynnal ymchwil gadwraeth hanfodol ym Mae Caerfyrddin a Bae Tremadog, gan ganolbwyntio ar siarcod a morgathod. Mae'r prosiect, sy'n rhychwantu Cymru, yn cydweithio â physgotwyr, cymunedau, ymchwilwyr a gwyddonwyr ddinasyddion i lenwi bylchau data ar gyfer chwe rhywogaeth allweddol, ac ar yr un pryd yn ymgysylltu â dros 3,000 o aelodau o'r cyhoedd a 600 o blant ysgol drwy sesiynau rhyngweithiol ac adnoddau addysgol dwyieithog. Mae Prosiect SIARC, a enillodd gwobr Prosiect y Flwyddyn yng Ngwobrau'r Loteri Genedlaethol, wedi gwneud cyfraniadau sylweddol i gadwraeth ac addysg forol.

### Astudiaeth achos 2

Mae cynllun Seilwaith Eiddo Llywodraeth Cymru ym Mharc Coed Elai, Rhondda Cynon Taf wedi ennill gwobr arfer gorau prosiect cadwraeth natur ar raddfa fach yng ngwobrau cenedlaethol CIEEM 2024.

Cafodd y safle, lleoliad hen bwll glo, ei adfer yn 2001, a chwblhawyd gwaith seilwaith yn 2019/20 i greu safle swyddi sy'n barod am fuddsoddiad. Canolbwyntiodd y prosiect ar wella bioamrywiaeth yn unol â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae'r cynllun 25 mlynedd i reoli tirwedd a chynefinoedd, a roddwyd ar waith yn 2021, yn rhoi mwy o bwyslais ar gadwraeth natur yn hytrach na dyluniad traddodiadol parc busnes, gan gynnwys mesurau i reoli rhywogaethau goresgynnol, creu cynefinoedd newydd ac adfer gwlyptiroedd. Mae'r safle'n fodel ar gyfer datblygu cynaliadwy ar hen dir glofeydd yn ne Cymru.

### Astudiaeth achos 3

Cyflwynwyd cynllun ailgylchu offer pysgota diwedd oes Cymru yn 2021 mewn ymateb i'r diffyg cyfleoedd ailgylchu ar gyfer diwydiant pysgota'r wlad. Hyd yn hyn, mae'r cynllun, sef yr unig gynllun cenedlaethol o'i fath yn y DU o hyd, wedi casglu mwy na 12 tunnell o offer pysgota a allai fod wedi cael ei waredu ar y môr fel arall, ac effeithio ar fioamrywiaeth y môr.

### Astudiaeth achos 4

Mae mawndiroedd Cymru yn dyngedfennol ar gyfer bioamrywiaeth, rheoli llifogydd, cynhyrchu bwyd a storio carbon, ac mae hanner eu harwynebedd o dros 90,000 hectar wedi'i ddynodi'n Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). Er gwaethaf eu pwysigrwydd, roedd 70% mewn cyflwr gwael erbyn 2018 oherwydd gweithgareddau fel draenio a gorbori. Ymatebodd Llywodraeth Cymru i hynny drwy lansio'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd a dyrannu dros £8 miliwn o gyllid rhwng 2020 a 2025, gyda'r nod o adfer 5,000 hectar. Erbyn 2024, roedd y rhaglen wedi adfer 3,000 hectar, gyda Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn arwain ymdrechion ac yn defnyddio adnoddau fel Porth Data Mawndiroedd Cymru i olrhain cynnydd.

### Astudiaeth achos 5

Mae Dr Beynon's Bug Farm, safle 100 erw sy'n canolbwyntio ar adfer natur, yn goridor bywyd gwyllt hollbwysig ar Benrhyn Dewi. Mae'n cysylltu cynefinoedd hollbwysig ac yn integreiddio ffermio â chadwraeth o dan gynllun amaeth-amgylcheddol Glastir Uwch. Gyda chymorth £211,624 gan y Gronfa Rhwydweithiau Natur, nod prosiect Cysylltu Tir Comin a'r Ganolfan Adfer Natur yw atgyfnerthu coridor cynefinoedd tameidiog y rhanbarth, gan gyfrannu at weledigaeth ehangach o droi'r fferm yn warchodfa natur. Mae'r prosiect hwn wedi cysylltu 200 hectar o gynefin bywyd gwyllt, gyda'r gwaith yn cynnwys arolygon ecolegol, adfer cynefinoedd a chreu coetiroedd cynaliadwy. Yn ogystal, mae'r saflle yn ehangu ei allgymorth addysgol ac yn bwriadu ailgyflwyno glöyn byw britheg y gors.

### Astudiaeth achos 6

Mae prosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd Cymru, sy'n rhedeg rhwng 2018 a 2025, yn gweithio mewn pum Ardal Cadwraeth Arbennig i geisio adfer coedwigoedd glaw tymherus tameidiog a oedd unwaith yn gorchuddio bron i hanner y wlad. Mae'r ecosystemau bioamrywiol hynafol hyn, gyda'u cyfoeth o arwyddocâd diwylliannol a'u rôl hanfodol fel dalfeydd carbon, yn cael eu bygwth gan newid hinsawdd, clefydau a rhywogaethau goresgynnol. Mae'r prosiect gwerth £6.5 miliwn, dan arweiniad Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gyda nifer o bartneriaid, yn canolbwyntio ar ddileu rhywogaethau goresgynnol, gweithredu pori cynaliadwy ac adfer coetiroedd brodorol. Mae cyfranogiad cymunedol hefyd yn allweddol, gyda dros 2,000 o bobl yn cymryd rhan i hybu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y coedwigoedd glaw hyn.

### Astudiaeth achos 7

Prosiect Natur am Byth, sy'n dwyn ynghyd naw elusen amgylcheddol a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), yw rhaglen dreftadaeth naturiol ac allgymorth fwyaf Cymru. Mae ganddo gyllideb o £8 miliwn, a'r nod yw achub 67 o rywogaethau â blaenoriaeth ac ailgysylltu pobl â natur. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar ddangos strategaethau adfer rhywogaethau effeithiol, hybu ymwybyddiaeth o fygythiadau ac ysbrydoli gweithredu gan gymunedau amrywiol ar draws naw rhanbarth targed. Drwy gynnwys y gymuned mewn gweithgareddau fel gweithdai adnabod rhywogaethau a rheoli cynefinoedd, gwelwyd llwyddiannau nodedig megis ailgyflwyno'r tormaen crymddail i Barc Cenedlaethol Eryri a brechu rhag ffwng ysgwydd y dderwen mewn coetiroedd brodorol am y tro cyntaf yn y byd.

### Astudiaeth achos 8

Aeth Tasglu Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Pryfed Peillio ati i greu cynllun Caru Gwenyn i annog cymunedau a sefydliadau i ddysgu am bryfed peillio a rhoi atebion lleol ar waith i gefnogi eu goroesiad.

Daeth Cletwr, caffi a siop dan arweiniad y gymuned, yn rhan o'r fenter drwy ei glwb garddio, sy'n cael ei arwain gan wirfoddolwyr. Roedd ymuno â'r cynllun Caru Gwenyn yn caniatáu iddyn nhw grynhoi ac arddangos eu hymdrechion, gan ysbrydoli pobl leol ac ymwelwyr i weithredu. Enillodd Cletwr wobr Caru Gwenyn yn 2021, ac erbyn 2024, diolch i

help gwirfoddolwr a ddaeth yn Hyrwyddwr Caru Gwenyn, llwyddodd dwy ysgol leol i ennill yr un wobr.

# Eitem 3

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/HIDCC/5924/24

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd
Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

26 Medi 2024

Annwyl Llŷr,

Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu bod Awdurdod Cynllun Masnachu Allyriadau (ETS) y DU (Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon), wedi cysylltu heddiw â'r rheini sy'n cymryd rhan yn y cynllun ETS i ofyn am farn ar newid dechrau ail gyfnod dyrannu am ddim y cynllun o 2026 i 2027.

Un o brif rolau Awdurdod ETS y DU yw alinio'r Cynllun â thargedau sero net, sicrhau bod y Cynllun yn gweithio fel y dylai a'i fod yn cefnogi datgarboneiddio heb wneud busnesau yn llai cystadleuol. Un ffordd o sicrhau bod y farchnad yn parhau'n gystadeuol yw dyrannu lwfansau ETS y DU am ddim. Nod dyraniadau am ddim yw diogelu'r diwydiant yn y DU rhag cystadleuwyr o rannau eraill o'r byd nad ydynt yn gorfod talu am brisio carbon (dadleoli carbon).

Er mwyn rhoi sicrwydd i fasnachwyr ETS y DU ynghylch eu dyraniadau am ddim yn y dyfodol, ymgynghorodd yr Awdurdod ar adolygiad o'r broses o asesu dyraniadau am ddim, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2023[1]. Mae'r adolygiad yn arbennig o bwysig i Gymru gan fod rhai o'n diwydiannau yn agored iawn i gystadleuaeth oddi wrth ddiwydiannau byd-eang nad ydynt yn wynebu costau prisio carbon ac sy'n anos eu datgarboneiddio.

Mae diwydiannau o Gymru'n cael llawer o gymorth drwy ddyraniadau am ddim. Mae'n bwysig nad ydym yn rhoi diwydiant Cymru dan unrhyw anfantais; rhag i'r diwydiannau hynny adleoli i wledydd nad oes ganddynt yr un uchelgais o ran yr hinsawdd. Bydd risg iddynt o wneud gynyddu allyriadau byd-eang, gan wneud y broses bontio i sero net yn un annheg.

---

[1] [Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU: adolygiad dyrannu am ddim - GOV.UK (www.gov.uk)](www.gov.uk)

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn dilyn yr Adolygiad o'r Broses Asesu Dyraniadau Am Ddim, bydd yr ail gyfnod dyrannu am ddim, y bwriadwyd ei gynnal yn wreiddiol yn 2026, yn cael ei ddefnyddio i wneud unrhyw newidiadau. Byddai symud yr ail gyfnod dyrannu i 2027 yn golygu bod unrhyw newidiadau yn sgil yr adolygiad yn cael eu gwneud flwyddyn yn ddiweddarach na'r hyn a fwriadwyd. Fodd bynnag, byddai'n ein galluogi i alinio newidiadau i bolisi dyraniadau am ddim ETS y DU â chynlluniau Llywodraeth y DU i gyflwyno Mecanwaith Newid Ffiniau Carbon y DU (CBAM) yn 2027, sydd ynddo'i hun yn fesur i leihau dadleoli carbon. Derbyniodd yr Awdurdod nifer fawr o ymatebion i'r ymgynghoriad ar yr Adolygiad o Ddyraniadau Am Ddim yn gynharach eleni yn nodi bod pobl o blaid yr alinio i sicrhau dull cyson o leihau dadleoli carbon. Bydd ei symud i 2027 yn rhoi mwy o amser i ystyried barn rhanddeiliaid a datblygu polisi mewn maes cymhleth ac anodd.

Bydd yr Awdurdod yn ymgysylltu'n uniongyrchol â rhanddeiliaid yr effeithir arnynt, bydd yr ymgynghoriad ar agor am bythefnos a bydd Awdurdod ETS y DU yn ymateb cyn gynted â phosibl i roi sicrwydd i gyfranogwyr y cynllun ynghylch eu dyraniadau am ddim ym mlwyddyn 2026 y cynllun. Ni fydd yr ymgynghoriad yn cael ei gyfieithu gan fod rhanddeiliaid yr effeithir arnynt eisoes wedi mynegi mai Saesneg yw eu dewis iaith.

Byddaf wrth gwrs yn ysgrifennu atoch eto pan gaiff Ymateb yr Awdurdod i'r ymgynghoriad ar yr Adolygiad o Ddyraniadau Am Ddim ei gyhoeddi. Bydd yr wybodaeth a gesglir yn ein helpu i fireinio'r cynllun, ac yn ein galluogi i greu trefniadau mwy cadarn a fydd yn cymell diwydiant i arloesi, yn sbardun i ostwng allyriadau ac yn sicrhau dyfodol cydnerth a chynaliadwy i Gymru.

Rwyn anfon copi o'r llythyr hwn at Mike Hedges AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd
a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: HIDCC/PO/0254/24

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

26 Medi 2024

Annwyl Mike,

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol, hoffwn roi gwybod ichi y cynhaliwyd cyfarfod arall o'r Grŵp Rhyngweinidogol ar yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar 16 Medi 2024, ble yr oeddwn yn bresennol.

Cafodd y cyfarfod ei gadeirio gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Steve Reed AS.

Roedd Mary Creagh AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol (Gweinidog Natur) yn y cyfarfod hefyd, y Farwnes Hayman, Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol yn Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Mairi Gougeon ASA, Ysgrifennydd y Cabinet dros Faterion Gwledig, Diwygio Tir ac Ynysoedd, Jim Fairlie ASA, y Gweinidog Amaethyddiaeth a Chysylltedd, ac Andrew Muir ACD, y Gweinidog Amaethyddiaeth, Materion Gwledig a'r Amgylchedd.

Rwyf wedi cyhoeddi Datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig yn crynhoi'r trafodaethau yn y cyfarfod. Cytunodd y Grŵp i sefydlu cysylltiadau rhynglywodraethol cryfach yn seiliedig ar egwyddorion gonestrwydd, ymddiriedaeth a pharch ac, yn y cyd-destun hwn, gwnaethom gytuno ar Gylch Gorchwyl newydd ac uchelgeisiol. Bydd y rhain yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth y DU a byddaf yn rhoi dolen i chi i'r rhain maes o law.

Gwnaethom gytuno ar amserlen o gyfarfodydd ar gyfer 2024 a 2025 i hwyluso ymgysylltu a goruchwylio sawl maes cydweithredu gwell.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 18 Tachwedd.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn hefyd at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yr eiddoch yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Gwasanaeth Natur Cymru
Nature Service Wales

Llyr Gruffydd MS
Chair, Climate Change, Environment and Infrastructure Committee
Welsh Government
Cardiff Bay
CF99 1NA

25th September 2024

**Re: Introduction and Update on Nature Service Wales**

Dear Llyr,

I hope this letter finds you well. Following the recent meeting of the CCEI Committee, during which Joyce Watson MS raised a question regarding Nature Service Wales (NSW), I felt it would be a good moment to introduce myself as the newly appointed Director of NSW and provide the committee with some background and an update on our current progress.

As you may know, Nature Service Wales received financial support from Welsh Government in 2022 to produce a business plan, and in July this year, we secured a further small grant to begin building our core team. We are now in the early stages of delivering Strand 1 of that plan, which focuses on establishing NSW as an entity. This includes developing clear governance structures, securing additional funding for the core team, and broadening the partnership to build a national framework with a focus on both terrestrial and marine, reflecting the holistic approach needed for environmental restoration in Wales.

Nature Service Wales envisions a country-wide movement delivering nature-based skills and knowledge through structured education, training, and volunteering, delivered via a network of local partners. This will create pathways to employment, support health and wellbeing, engage diverse communities and strengthen our collective response to the Nature and Climate Emergencies.

A broad partnership is already working to develop this approach. Through this next phase we will build on that, bringing together environmental organisations and stakeholders from across sectors to offer coordinated opportunities that educate, upskill, and inspire. This fully embodies the spirit of the Wellbeing of Future Generations Act, turning its principles into action with a long-term, coordinated approach to nature recovery while addressing skills gaps, fostering collaboration across sectors, and empowering individuals from all backgrounds to engage. This will help us build the capacity needed to transform Wales from one of the most nature-depleted countries in the world, to a global leader in nature recovery.

We see Welsh Government as a key partner and are committed to aligning with its environmental and climate goals, with a particular focus on increasing public engagement and addressing the urgent need for nature-based skills development. These aims would also deliver on recommendations from the Government's Biodiversity Deep Dive, which emphasise the need for capacity building, behaviour change, and skills development to achieve long-term nature recovery goals.

We have already outlined our key asks of Welsh Government, including a recommendation for a cross-departmental project board with a point of contact, so partners can engage across the relevant policy areas including education, skills, biodiversity, economy, agriculture, community, and marine. A key action for this group would be a review to identify where existing funding streams can support nature-based skills development.

We have also requested that Welsh Government become a partner investor in Strand 1 of our business plan, which focuses on establishing a national framework for delivery. While we are seeking investment from other sources, government backing will be crucial in demonstrating leadership and long-term commitment.

As we continue to build momentum, we are planning a launch event to formally introduce NSW to a broader audience and highlight opportunities for greater engagement. I would be delighted to keep you informed of our plans and would welcome any feedback or support you may offer as we move forward. We have previously met with government official Alison Kitchener and will continue to engage through this development phase.

I am keen to work closely with the Welsh Government and all relevant stakeholders to ensure NSW plays a meaningful role in advancing Wales's environmental and climate ambitions. I have copied Joyce Watson MS into this letter, and I would be happy to meet with you to discuss how NSW can best align with the Welsh Government's strategic goals.

Thank you for your time, and I look forward to keeping you updated on our progress.

Yours sincerely,

Daniel Lock
Director, Nature Service Wales
daniel.lock@ffcc.co.uk

**Cc: Joyce Watson MS**

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: HIDCC/PO/0259/24

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd
Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

26 Medi 2024

Annwyl Llŷr,

Rwy'n ysgrifennu i roi rhagor o wybodaeth i'r pwyllgor yn dilyn llythyr fy rhagflaenydd ar 1 Mawrth. Yn y llythyr hwnnw, ymrwymodd y Llywodraeth i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am argymhellion 21, 43, 45 a 49 o'ch adroddiad ar eich gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25. Gweler isod os gwelwch yn dda.

**Argymhelliad 21**

O fewn chwe mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn, dylai'r Gweinidog adrodd i'r Pwyllgor ar y cynnydd a wnaed tuag at ddatblygu model cyllid arloesol a chynaliadwy i sicrhau adferiad natur. Dylai hyn gynnwys y drafft egwyddorion arweiniol ar gyfer buddsoddi preifat cyfrifol i gefnogi adferiad byd natur.

Ymateb: Derbyn

**Egwyddorion Buddsoddi Cynaliadwy**

Ar 10 Medi 2024 fe wnaethom lansio'r cyfnod ymgynghori ar ein Hegwyddorion Buddsoddi Cynaliadwy. Mae'r egwyddorion hyn yn nodi'r nodweddion yr rydym yn chwilio amdanynt wrth ystyried prosiectau ac ymgysylltu â buddsoddwyr a datblygwyr. Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael drwy'r dolenni isod:

- Egwyddorion Buddsoddi Cynaliadwy drafft | LLYW. CYMRU
- Draft Sustainable Investment Principles | GOV.WALES

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r egwyddorion hyn yn rhan o'n dull newydd o ymdrin â chyllid cynaliadwy ar gyfer adfer natur, fel yr argymhellwyd yn adroddiad Finance Earth ar ddatblygu marchnadoedd natur yng Nghymru.

Datblygwyd yr Egwyddorion ar y cyd â'r grŵp Gorchwyl a Gorffen cyllid cynaliadwy sy'n cynnwys cyrff anllywodraethol a sefydliadau eraill gan gynnwys RSPB, Ymddiriedolaethau Natur Cymru, WWF, y Gymdeithas Cadwraeth Forol, Dŵr Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru. Bwriad yr Egwyddorion hyn yw cynyddu ac arallgyfeirio'r cyllid sydd ar gael fel y gallwn fynd i'r afael yn effeithiol â'r argyfwng natur a'r pwysau sy'n arwain at golli bioamrywiaeth - gan gynnwys newid hinsawdd, llygredd, a rheolaeth anghynaliadwy ar adnoddau naturiol. Bydd yr Egwyddorion yn helpu i sicrhau bod unrhyw gyllid yn ddibynadwy iawn, o fudd i gymunedau lleol ac yn eu cynnwys, ac yn osgoi newid defnydd tir amhriodol a gwyrddgalchu.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y pedair egwyddor ganlynol i lywio ei dull o fuddsoddi'n breifat ym myd natur.

1. Cefnogi defnydd tir integredig a rhannu buddion yn deg
   - Mae'r egwyddor hon er mwyn sicrhau bod y rhai sy'n ceisio buddsoddi mewn marchnadoedd cyfalaf naturiol yn gwneud hynny mewn partneriaeth â'r tirfeddianwyr a'r rheolwyr. O dan yr egwyddor hon, dylai buddsoddiadau a phrosiectau ymdrechu i sicrhau canlyniadau atodol, megis gwelliannau bioamrywiaeth yn ogystal ag atafaelu carbon.
2. Darparu manteision lles cyhoeddus, preifat, cymunedol a diwylliannol
   - Mae hyn yn nodi bod yn rhaid i benderfyniadau buddsoddi a rheoli gyfrif am yr amodau a'r addasrwydd lleol wrth ddangos ystyriaeth o'r pedwar adnodd cyfalaf (naturiol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol).
3. Dangos arferion gorau wrth ymgysylltu a chydweithio
   - O dan yr egwyddor hon bydd rhaid i fuddsoddwyr a rheolwyr tir gydweithio'n agored â chyrff cyhoeddus a'r cyhoedd yn ehangach i ddatblygu dull cydlynol o gyflawni eu prosiectau.
4. Arddangos dulliau gweithredu seiliedig ar werthoedd ac sy’n dangos uniondeb
   - Mae'r egwyddor hon yn ystyried ychwanegedd, cadernid data, tryloywder technegau a methodoleg asesu a hyd y manteision sy'n deillio ohonynt.

**Cefnogaeth ar gyfer Datblygu Marchnadoedd Natur**

Mae cyllid cynaliadwy, taliadau am wasanaethau ecosystemau, a marchnadoedd cyfalaf naturiol yn dal i fod yn sector cymharol newydd. Er mwyn dechrau adeiladu sylfaen gallu a gwybodaeth Cymru mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu dau gynllun peilot braenaru (gweler isod am ragor o wybodaeth) ac mae'n ystyried cynlluniau peilot pellach.

**Cronfa Cadernid a Gwella Ecosystemau Naturiol Cymru (Marine)**

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £85,000 o gyllid i CGGC i recriwtio Rheolwr Datblygu Cronfa ar gyfer Cronfa Marine Cymru. Mae Cronfa Marine Cymru yn ceisio buddsoddi mewn rhaglenni a phrosiectau sy'n galluogi, cynnal a gwella gwydnwch ecosystemau morol ac arfordirol yn y tymor hir, gan hwyluso'r broses o ddarparu buddion ehangach i unigolion, cymunedau a busnesau. Bydd Rheolwr Datblygu'r Gronfa yn drafftio fframwaith strategol i lywio cyllid y prosiect a bydd yn gweithio i ddenu cyllid sbarduno gan fuddsoddwyr.

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog**

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £119,000 o gyllid i Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (Y Bannau) ar gyfer swydd Pennaeth Datblygu Cyfalaf Naturiol i gyflymu'r broses o wireddu buddion o fuddsoddiadau cyllid preifat mewn natur . Bydd y rôl hon yn helpu i gynyddu cyllid adfer natur trwy archwilio a gweithredu marchnadoedd gwasanaethau ecosystemau trachywir a lledaenu'r wybodaeth hon ar draws awdurdodau ein parciau cenedlaethol eraill.

**Ymgysylltu â Llywodraeth y DU**

Rydym yn parhau i ymgysylltu â Defra a'r Sefydliad Safonau Prydeinig (BSI) ar ddatblygu Rhaglen Safonau Buddsoddi Natur, a fydd yn darparu meincnod ar gyfer codau a marchnadoedd diwydiant a gydnabyddir yn ddigon cadarn a chredadwy. Mae ein gwaith ymgysylltu yn sicrhau bod ein gwerthoedd Cymreig yn cael eu hadlewyrchu yn y safonau newydd hyn. Daeth BSI â'u hymgynghoriad ar yr Egwyddorion Cyffredinol i ben ddechrau'r haf ac maent yn paratoi i ymgynghori ar eu safonau Bioamrywiaeth a Charbon yn gynnar yr hydref hwn.

Trafodais hefyd rai o'r materion hyn gydag Ysgrifennydd Gwladol yr Amgylchedd a Materion Gwledig a Gweinidogion o'r Alban a Gogledd Iwerddon yng nghyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ym mis Medi.

**Argymhelliad 43**

O fewn chwe mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn, dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar gynnydd tuag at ddatblygu targedau ailgylchu statudol newydd.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Dim ond yn ystod y flwyddyn ariannol hon y daeth y targed ailgylchu newydd o 70% i rym. Rydym wedi dechrau ymgysylltu ag Awdurdodau Lleol ac wedi rhoi arweiniad clir y bydd gweithio tuag at ddim gwastraff erbyn 2050 yn golygu aros yn unol â'r gyfradd drosglwyddo sydd ei hangen i gyrraedd y lefel honno.

Fel cam allweddol cyntaf rydym wedi bod yn datblygu diweddariad i'r Glasbrint yr ydym yn ymgysylltu ag Awdurdodau Lleol arno fel bod canllawiau clir ar y camau sydd eu hangen ar Awdurdodau Lleol i fynd y tu hwnt i 70%.

Rydym hefyd yn archwilio gyda Llywodraeth y DU, gan gydweithio ar strategaeth economi gylchol.  Mae'r gwaith hwn yn debygol o lywio ein dull gweithredu o safbwynt targedau newydd yn y dyfodol, a'r ffordd i'w cyrraedd.

**Argymhelliad 45**

O fewn chwe mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn, dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar gynnydd tuag at gyflwyno'r Cynllun Dychwelyd Ernes. Dylai hyn gynnwys a yw'r cynllun yn parhau i fod ar y trywydd iawn i fynd yn fyw ym mis Hydref 2025.

Ymateb: Derbyn

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda’r tair gwlad arall ar ddatblygu'r Cynllun Dychwelyd Ernes. Fodd bynnag, mae'r amserlen wrthi'n cael ei hadolygu yn dilyn effaith penderfyniad Deddf Marchnad Fewnol y DU sydd wedi atal y Cynllun Dychwelyd Ernes rhag mynd yn fyw yn yr Alban. Mae wedi arwain at sgil-effeithiau ar y ffordd mae'r cynlluniau'n rhyngweithredu ar draws y pedair gwlad.

Byddaf yn adrodd i'r Pwyllgor ar gynnydd a'r effaith ar y dyddiad mynd yn fyw pan fydd cynlluniau'n cael eu cadarnhau.

**Argymhelliad 49**

Dylai'r Gweinidog ddiweddaru'r Pwyllgor o fewn y chwe mis nesaf ar y cynnydd tuag at ailstrwythuro model cyllido CNC ynghylch incwm pren.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i archwilio cyfleoedd i ddatblygu a gweithredu fframweithiau ariannu amgen er mwyn rhoi hyblygrwydd ychwanegol i CNC i gefnogi ei waith.

Ar gyfer y flwyddyn ariannol hon (2024-2025), mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu model ariannu newydd i gefnogi gwaith CNC o reoli Ystad Goed Llywodraeth Cymru. Mae'r trefniadau newydd hyn yn rhoi cyllideb sicr flynyddol benodol i CNC, wedi'i netio yn erbyn yr incwm pren a dderbyniwyd, gydag unrhyw ddiffyg yn cael ei amsugno gan Lywodraeth Cymru. Mae'r trefniadau hyn yn helpu i liniaru effaith prisiau pren anwadal a bywiogrwydd y farchnad bren ac mae'n caniatáu i CNC weithredu ar sail ariannol sefydlog wrth iddynt reoli’r Ystad Goed.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro'r trefniadau hyn wrth symud ymlaen a bydd yn gwneud addasiadau lle bo hynny'n briodol mewn partneriaeth â CNC.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs

**Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Cymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol**

—

**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565

—

**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Eluned Morgan AS
Prif Weinidog
Ken Skates
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi,
Trafnidiaeth a Gogledd Cymru
Llywodraeth Cymru

20 Awst 2024

**Strategaeth Ryngwladol a Maes Awyr Cymru Caerdydd**

Annwyl Eluned a Ken

Rwy'n ysgrifennu mewn perthynas â'r **datganiad ysgrifenedig** a gyhoeddwyd ar 22 Gorffennaf 2024 yn cyhoeddi cyllid buddsoddi ychwanegol hirdymor sydd wedi'i gynllunio ar gyfer Maes Awyr Caerdydd dros gyfnod o ddeng mlynedd, yn amodol ar gymeradwyaeth reoleiddiol.

Mae'r datganiad yn cyfeirio at **Strategaeth Ryngwladol** Llywodraeth Cymru, fel a ganlyn:

> *Er mwyn gwella cysylltedd, bydd y Maes Awyr yn ceisio datblygu llwybrau i'r rhannau hynny o'r byd y nodwyd yn strategaeth ryngwladol Llywodraeth Cymru eu bod yn bwysig i sicrhau twf economaidd, megis:*
>
> *- Y Dwyrain Canol a De Asia*
>
> *- Yr Undeb Ewropeaidd – canolfannau economaidd ac ariannol pwysig a meysydd awyr hyb*
>
> *- Gogledd America*

Fel y Pwyllgor sy'n gyfrifol am graffu ar weithgarwch cysylltiadau rhyngwladol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys ei Strategaeth Ryngwladol, hoffwn ofyn am ragor o wybodaeth am y datblygiad sylweddol hwn fel yr amlinellir o dan yr is-benawdau isod.

## Cyflawni'r Strategaeth Ryngwladol

Byddwch yn ymwybodol bod dau gyfeiriad at Faes Awyr Caerdydd yn y Strategaeth Ryngwladol, a gyhoeddwyd yn 2020. Gwneir y cyfeiriadau hyn yng nghyd-destun disgrifio cysylltedd Cymru â gweddill y byd ac, ar wahân, mewn perthynas â thwristiaeth antur gynaliadwy a'r uchelgais i'r maes awyr ddod yn ganolfan hedfan carbon isel yn y DU. A allwch chi egluro'r amserlen ar gyfer y penderfyniad buddsoddi? Hefyd, a allwch chi gadarnhau pa lwybrau sy'n cael eu hystyried i'w datblygu a sut y bydd pob llwybr yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth Ryngwladol?

Mae'r Strategaeth Ryngwladol yn nodi tri nod craidd sef:

**1.** codi proffil Cymru yn fyd-eang;

**2.** tyfu'r economi drwy gynyddu allforion a denu mewnfuddsoddiad; a

**3.** sefydlu Cymru fel cenedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Byddwn yn croesawu gwybodaeth fanwl am:

- sut mae'r buddsoddiad hwn yn cyfrannu at bob un o'r tri nod craidd, fel yr amlinellir; a
- pha ystyriaeth a roddwyd i gydbwyso'r nodau craidd, yn enwedig o ran cynaliadwyedd?

Byddwn yn ddiolchgar hefyd pe gallech egluro:

- a fydd y buddsoddiad yn cael ei ddefnyddio i weithredu cynlluniau'r Maes Awyr i ymrwymo i dargedau sero net (nad oedd wedi'i gyflawni erbyn mis Mawrth 2023), megis ar gyfer fferm solar yn y maes awyr neu brynu cerbydau trydan neu hybrid?
- i ba raddau mae'r methiant i gyrraedd y targed hwn yn tanseilio nod y Strategaeth Ryngwladol i'r maes awyr ddod yn ganolfan hedfan carbon isel yn y DU?
- sut y bydd ailddechrau gwasanaethau Qatar Airways, os yw'n cael ei sicrhau, yn cefnogi'r bwriad i gyflawni'r Strategaeth Ryngwladol?

## Rôl swyddfeydd tramor yn y penderfyniad buddsoddi

A allwch chi egluro pa ran y mae swyddfeydd tramor Llywodraeth Cymru wedi'i chael yn y penderfyniad buddsoddi fel y mae'n ymwneud â chysylltedd Cymru â gweddill y byd? Yn ogystal, a fydd gan y swyddfeydd tramor rôl wrth gyflawni cynlluniau'r maes awyr yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â'r Strategaeth Ryngwladol?

## Goblygiadau o ran y gyllideb

Mae maint y buddsoddiad yn sylweddol, ac mae'n tynnu sylw at oblygiadau cyllidebol. Er bod y pecyn buddsoddi yn amodol ar gymeradwyaeth reoleiddiol, gallai gyrraedd cyfanswm o £206 miliwn dros

gyfnod o ddeng mlynedd. Mae hyn yn sylweddol uwch na'r gyllideb cysylltiadau rhyngwladol o £8.093 miliwn a ddyrannwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol hon.

Rydych yn nodi yn y datganiad bod y buddsoddiad hwn, yn rhannol, yn gysylltiedig â gwella cysylltiadau â rhannau o'r byd a nodwyd yn y Strategaeth Ryngwladol fel rhai sy'n bwysig ar gyfer twf economaidd. Felly, a allwch chi esbonio:

- Sut y bydd y buddsoddiad yn ymwneud â'r gyllideb Cysylltiadau Rhyngwladol?
- Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud wrthym dro ar ôl tro ei bod yn wynebu sefyllfa ariannol heriol ac na all gynllunio y tu hwnt i gylchoedd blynyddol, yn enwedig mewn perthynas â meysydd eraill yng nghylch gwaith ein Pwyllgor fel y sector diwylliant. Sut mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod yr arian hwn ar gael?
- Ar ba sail y cafodd buddsoddiad y maes awyr ei flaenoriaethu dros bwysau ariannol eraill fel yr argyfwng ariannol yn y celfyddydau, diwylliant a chwaraeon?

Yn olaf, hoffwn nodi pa mor siomedig oedd dysgu am y wybodaeth hon trwy ddatganiad ysgrifenedig ar ddydd Llun cyntaf toriad yr haf. Roedd digon o gyfleoedd i roi diweddariad i'r Aelodau yn ystod y tymor. Er enghraifft, daeth y cyn Brif Weinidog i'n sesiwn graffu ar gysylltiadau rhyngwladol ar 19 Mehefin 2024, bedair wythnos yn unig cyn cyhoeddi'r datganiad hwn. Yn ystod y sesiwn, ni soniwyd am y maes awyr er gwaethaf trafodaethau penodol am flaenoriaethau rhyngwladol Llywodraeth Cymru ar gyfer y dyfodol, cyflawni'r Strategaeth Ryngwladol a'r gweithgaredd yn y rhanbarthau a glustnodwyd ar gyfer llwybrau hedfan newydd.

Byddwn yn ddiolchgar am ymateb i'r llythyr hwn erbyn 17 Medi 2024 fan bellaf. Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith; a Chadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig er gwybodaeth iddynt.

Yn gywir

**Delyth Jewell AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio**
**Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

02 Hydref 2024

Annwyl Delyth,

**STRATEGAETH RYNGWLADOL A MAES AWYR CAERDYDD**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 20 Awst at y Prif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet ar y pryd dros yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru ynghylch strategaeth ryngwladol Llywodraeth Cymru a Maes Awyr Caerdydd. Rwy'n ymateb i chi gan mai fi yw'r Ysgrifennydd Cabinet sy'n gyfrifol am Faes Awyr Caerdydd erbyn hyn.

Yn gyntaf, derbyniwch fy ymddiheuriadau am yr oedi wrth ymateb, sy'n gysylltiedig â'r angen i gadarnhau portffolios Gweinidogol newydd i'r Senedd yn ffurfiol cyn cyfathrebu yn rhinwedd fy swydd newydd.

Fel y gwyddoch, ar 22 Gorffennaf, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru ar y pryd ddatganiad sy'n nodi ein strategaeth arfaethedig ar gyfer Maes Awyr Caerdydd yn y dyfodol. Mae'r datganiad ar gael yma: Datganiad Ysgrifenedig: Maes Awyr Cymru Caerdydd – strategaeth hirdymor (22 Gorffennaf 2024) | LLYW.CYMRU

Yn dilyn y Datganiad, cyflwynodd Llywodraeth Cymru ei hatgyfeiriad i'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau (SAU), rhan o'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) ar 15 Awst 2024. Fe wnaeth y SAU gydnabod ei fod wedi derbyn ein atgyfeiriad ac ar hyn o bryd mae'n paratoi ei adroddiad a gyhoeddir yr wythnos hon ar 2 Hydref. Y dull a amlinellir, gan ddefnyddio buddsoddiad cymhorthdal i wneud y mwyaf o botensial economaidd Maes Awyr Caerdydd, yw ein dewis presennol ar gyfer cefnogi'r Maes Awyr yn y tymor hir.

Unwaith y byddwn wedi derbyn adroddiad y CMA, byddaf yn ystyried ei ganfyddiadau gyda chydweithwyr Gweinidogol cyn gwneud penderfyniad terfynol ar y pecyn cymhorthdal yn y dyfodol. Unwaith y byddwn wedi gwneud penderfyniad terfynol ar ffurf unrhyw becyn buddsoddi,

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

byddaf yn diweddaru'r Senedd yn unol â hynny. Ni fydd proses atgyfeirio'r CMA yn dod i ben yn ffurfiol nes bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei chynnig cymhorthdal terfynol ar y gronfa ddata dryloywder berthnasol ac y bydd ffenestr 30 diwrnod ddilynol ar gyfer unrhyw her bosibl wedi cau. Gyda'r broses ffurfiol yn dal i fynd rhagddi, mae cyfyngiad ar yr hyn y gallaf ei ddweud am ffurf terfynol unrhyw fuddsoddiad yn y Maes Awyr.

Rwyf wedi nodi isod yr hyn y gallaf ei ddweud ar hyn o bryd mewn perthynas â'ch cwestiynau. Mae'n rhaid i mi nodi hefyd, os bydd Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â'r buddsoddiad cymhorthdal fel y bwriadwyd, y bydd llawer o'r manylion y tu ôl i'r strategaeth o natur fasnachol gyfrinachol ac yn parhau felly hyd yn oed ar ôl i'r broses CMA ddod i ben. Byddai rhyddhau gwybodaeth o'r fath yn rhoi Maes Awyr Caerdydd dan anfantais sylweddol iawn wrth drafod ar gyfer busnes newydd posib. Gall hefyd ddatgelu sefyllfaoedd masnachol busnesau sy'n gysylltiedig â'r Maes Awyr.

Fel y nodir yn y Datganiad Ysgrifenedig, nod y strategaeth yw adeiladu ar gryfderau unigryw'r Maes Awyr gyda dau brif amcan:

- denu a thyfu busnesau hedfan ac awyrofod sy'n gysylltiedig â'r Maes Awyr
- rhaglen wedi'i thargedu i ddatblygu gwasanaethau awyr, a fydd yn canolbwyntio ar gysylltedd teithwyr â nifer bach o ganolfannau awyr rhyngwladol a chanolfannau economaidd sydd o bwys i Gymru.

Mae sicrhau'r manteision economaidd gorau y gall Maes Awyr Caerdydd eu cynnig i Gymru wedi bod wrth wraidd ein strategaeth arfaethedig ar gyfer dyfodol y Maes Awyr. Mae'n gymhorthdal economaidd sy'n gweld y Maes Awyr fel catalydd ar gyfer creu swyddi newydd a chynyddu gweithgarwch economaidd yn ei gyffiniau, fel rhan o'r clwstwr awyrofod. Er ein bod yn rhagweld twf mewn cyflogaeth uniongyrchol a chyfraniad GVA o'r maes awyr ei hun, rydym hefyd yn disgwyl buddion sylweddol i'r economi gysylltiedig ehangach, er enghraifft ym mharc busnes Bro Tathan gerllaw. Mae Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at glwstwr Sector Awyrofod ac Amddiffyn De-ddwyrain Cymru fel un o'i Brosiectau Magnet.

Mae cysylltedd rhyngwladol yn elfen annatod i alluogi twf economaidd yn y dyfodol ac o'r herwydd, roedd nodau craidd Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru yn rhan bwysig o'n ffordd o feddwl. Wrth ddatblygu'r dull arfaethedig o gefnogi'r Maes Awyr yn y tymor hir, mae fy swyddogion wedi gweithio'n agos gyda'u cydweithwyr o bob rhan o Lywodraeth Cymru, gan gynnwys y rhai sy’n gweithio ym meysydd Cysylltiadau Rhyngwladol a Masnach. Y bwriadau o ran datblygu llwybrau awyr yw gwella cysylltedd â rhanbarthau o bwysigrwydd economaidd i Gymru, gan adlewyrchu rhanbarthau'r byd y cyfeirir atynt yn y Strategaeth Ryngwladol. Mae hyn yn cynnwys y Dwyrain Canol ac Asia, Ewrop, a Gogledd America/Canada. Nid wyf mewn sefyllfa ar hyn o bryd i nodi llwybrau penodol neu gyrchfannau unigol gan mai cyfrifoldeb tîm gweithredol y maes awyr, sy'n gyfrifol am weithrediad masnachol y maes awyr ac sy'n arwain ar y trafodaethau masnachol hynny, yw ceisio sicrhau'r trefniadau gorau posibl gyda chwmnïau hedfan sy'n gwasanaethu'r rhanbarthau hyn. Rwyf wedi cytuno y dylai'r Maes Awyr ystyried nifer fach o lwybrau wedi'u targedu sy'n canolbwyntio ar ddenu twristiaeth a buddsoddiad tramor. Os bydd blaenoriaethau rhyngwladol Llywodraeth Cymru yn newid, rwy'n hyderus y bydd yn ofynnol i Faes Awyr Caerdydd addasu ei ddull gweithredu yn unol â hynny, cyn belled â bod ei weithgareddau'n parhau o fewn paramedrau'r pecyn cymhorthdal terfynol sy'n deillio o broses atgyfeirio'r CMA.

Fel yr amlinellwyd yn y Datganiad Ysgrifenedig diweddar, rydym wedi cydnabod y tensiynau polisi rhwng bod yn berchen ar faes awyr, y manteision economaidd sylweddol y gall y maes awyr eu darparu i Gymru a'n hangen i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Mae'r strategaeth arfaethedig ar gyfer y Maes Awyr yn ceisio annog datblygu technolegau gyrru awyrennau mwy cynaliadwy a'u mabwysiadu'n lleol a lleihau allyriadau carbon o seilwaith y Maes Awyr.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i fynd i'r afael â chamddealltwriaeth ynghylch honiad bod y Maes Awyr wedi methu targed sero net. O dan delerau'r grant Achub ac Ailstrwythuro, roedd yn ofynnol i'r Maes Awyr ddarparu ymrwymiad erbyn 31 Mawrth 2023 i ddod yn garbon niwtral, a mae wedi gwneud hynny. Nid bod yn garbon niwtral erbyn 2023 oedd y targed.

Mae Maes Awyr Caerdydd wedi ymrwymo i leihau ei ôl troed carbon ac rwy'n falch o gynghori'r Pwyllgor bod y Maes Awyr wedi lleihau dros 60% o allyriadau carbon o'i weithrediadau ar y ddaear yn ystod y pedair blynedd diwethaf, o 1,700 tunnell i lai na 600 tunnell o CO2 bob blwyddyn, gyda'r nod o leihau hyn 50% arall dros y pum mlynedd nesaf. Mae'r Maes Awyr hefyd wedi cyhoeddi'n ddiweddar ei fod wedi ychwanegu chwe cherbyd trydan newydd i'w fflyd weithredol a fydd yn cael eu defnyddio ar draws Maes Awyr Caerdydd a Sain Tathan Aerodrome gan dimau’r meysydd parcio, diogelwch, gweithrediadau maes awyr a rheoli adar.

Fel enghreifftiau penodol o'r hyn sydd wedi ei gyflawni yn y maes hwn, mae'r Maes Awyr wedi:

- Newid i ffynonellau trydan cwbl adnewyddadwy a glân;
- Canolbwyntio'n drwm ar ailgylchu ac nid yw'n anfon unrhyw wastraff i safleoedd tirlenwi;
- Lleihau ei ddefnydd o nwy naturiol 30%;
- Ailosod asedau fel eu bod yn defnyddio technoleg fodern a mwy effeithlon o ran ynni;
- Cyfyngu ar redeg peiriannau ar y ddaear yn ystod oriau gwrthgymdeithasol;
- Gweithredu dulliau glanio parhaus ar gyfer awyrennau sy'n cyrraedd, gan leihau sŵn;
- Annog awyrennau sydd â dwy injan i symud tuag at y rhedfa gydag un injan;
- Cyflwyno rhaglen amnewid goleuadau LED; a
- Parhau i leihau'r defnydd o blastig gyda'i bartneriaid.

Bydd y strategaeth hirdymor arfaethedig yn galluogi'r Maes Awyr i barhau ar ei lwybr tuag at sero net. Mae'r Maes Awyr yn gweithio ar ddiweddaru ei Lwybr Hedfan Amgylcheddol a bydd yn ei gyhoeddi unwaith y bydd y llwybr at gyllid yn y dyfodol wedi'i gadarnhau ar ôl cwblhau'r broses CMA.

O ran Qatar Airways, mae tîm gweithredol y Maes Awyr yn arwain ar y trafodaethau masnachol gyda'r cwmni hedfan ynghylch ailddechrau gwasanaeth Doha. Ni fyddai'n briodol i mi wneud sylw pellach tra bod y trafodaethau hynny'n dal i fynd rhagddynt, heblaw dweud y byddwn yn croesawu ailddechrau ar y llwybr pan fydd yr amser yn iawn i'r Maes Awyr a'r gweithredwr.

Mae Maes Awyr Caerdydd yn is-gwmni sy'n eiddo'n llwyr i Lywodraeth Cymru, sy'n cael ei weithredu ar hyd braich fel cwmni cyfyngedig preifat. Mae'n gweithredu mewn modd annibynnol a masnachol ac mae'n atebol am ei weithredoedd ei hun ac unrhyw faterion sy'n codi o redeg ei fusnes. Nid yw Gweinidogion yn ymyrryd ym materion gweithredu masnachol dydd i ddydd y Maes Awyr. Felly tîm gweithredol y Maes Awyr, gyda gwaith craffu priodol gan WGC Holdco Ltd, fydd yn penderfynu sut y maent yn cyflawni strategaeth Llywodraeth Cymru yn fasnachol. Fy mwriad yw y bydd Holdco yn chwarae rhan fwy amlwg wrth lywodraethu, herio a chraffu ar y Maes Awyr wrth symud ymlaen. Unwaith y bydd strategaeth ar gyfer y dyfodol wedi'i chadarnhau, byddaf yn sicrhau bod mesurau llwyddiant a threfniadau

llywodraethu priodol yn cael eu rhoi ar waith i fonitro perfformiad y Maes Awyr yn erbyn ei amcanion economaidd.

O ran cyllidebau, bydd penderfyniadau ar ddyraniadau cyllid blynyddol i'r Maes Awyr yn cael eu hystyried yng nghyd-destun y cyfleoedd buddsoddi penodol sydd wedi'u sicrhau gan dîm gweithredol y Maes Awyr a byddant yn cael eu hystyried ochr yn ochr â blaenoriaethau eraill ar gyfer gwariant ar draws Llywodraeth Cymru. Bydd unrhyw wariant ar y Maes Awyr wrth gwrs yn amodol ar ganlyniad proses y CMA.

Rwy'n gobeithio y bydd yr wybodaeth yn y llythyr hwn o gymorth i'r Pwyllgor .

Gyda dymuniadau gorau.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning

Copi at: Prif Weinidog Cymru
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus;
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith; a
Chadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Your ref: P-06-1474
Our ref: CX24-154

Gareth Price
Petitions Committee Clerk
Senedd Cymru
Cardiff Bay
CF99 1SN

By email only: petitions@senedd.wales

30 September 2024

Dear Gareth

## Petition P-06-1474 Stop Natural Resources Wales closing Bwlch Nant yr Arian, Coed y Brenin and Ynyslas Visitor Centres

Thank you for your letter of 16 September.

As the Petitions Committee will be aware, public funding is very tight, not only for NRW but also for other public sector bodies. NRW needs to make a minimum saving of £13 million over the next two years. As such, we are having to look across all of our remit and critically review what we can and must continue to do, what we stop, and what we slow or do differently to fulfil our Corporate Plan ambitions. We are having to make difficult decisions in order to achieve these savings.

While we fully recognise how well loved and regarded our visitor centres are, the truth is that NRW is not best placed to operate catering and retail facilities. We have acknowledged that if we are to support visitor access and maintain the sites for future use, the centres themselves need to be run by organisations that have the skills, knowledge and financial capacity to operate in the retail and catering sector.

In the Case for Change, we proposed that visitor centre sites remain open for recreation access, such as walking and biking, as they are currently. Services such as play areas, car parking and toilet provision will also remain available. The proposal is that we no longer operate catering and retail provision at visitor centres but that we will seek to identify and work with partners to run these services. Our visitor centre staff are not responsible for managing the land in and around the centres, so are not responsible for trail and access management.

We are currently reviewing the services we provide as part of our Case for Change process. This impacts all our services, not just visitor centres. Our consultation with Trade

Unions on the proposals has now closed, and we will review the information received during the consultation to determine if any adjustments are needed. The final proposals will be presented to the NRW Board for consideration in the autumn.

The outcome of the Case for Change will then be communicated to staff, and further information on impacted services will be shared with the public and stakeholders in due course. At that point, we will re-engage with local groups and potential partners about the next steps at each visitor centre site. These may be slightly different, as each site has bespoke needs that will need to be considered.

We have already been approached by multiple community groups and private enterprises that are interested in operating the visitor centres, and we are planning further public meetings in mid-November. Information about those meetings will be shared in due course.

It is very important to NRW that we do this responsibly and in the right way, and that we secure the future of the sites for maximum benefit in the long-term. It is a great opportunity to secure future investment in the sites, provide refreshed interest in the areas and promote the ongoing attractiveness of mid-Wales as a destination for visitors to Wales.

Yours sincerely



*pp. Sarah Jennings, Executive Director for Customer, Communications & Commercial*

**Clare Pillman**

**Prif Weithredwr, Cyfoeth Naturiol Cymru**
**Chief Executive, Natural Resources Wales**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg a byddwn yn ymateb yn Gymraeg, heb i hynny arwain at oedi.
Correspondence in Welsh is welcomed, and we will respond in Welsh without it leading to a delay.

**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
**—**
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
**—**
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Louis Coiffait-Gunn CEO, CILIP
Y Llyfrgell a'r Gymdeithas Gwybodaeth

10 Hydref 2024

Diolch am eich llythyr ynghylch y posibilrwydd o gau Gwasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ac am rannu pryderon Sefydliad Siartredig y Llyfrgellwyr a'r Gweithwyr Gwybodaeth (CILIP) ynghylch hyn.

Roeddwn yn awyddus i'ch sicrhau bod y Pwyllgor yn cymryd diddordeb mawr yn y datblygiadau yn CNC. Codais y mater hwn fel Cadeirydd y Pwyllgor yn ystod dadl yn y Cyfarfod Llawn ar adroddiad blynyddol y Pwyllgor ar CNC ar 2 Hydref.

Diolch am eich cynnig i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor, a byddwn yn parhau i ystyried effaith datblygiadau yn y maes hwn.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd, y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg./ We welcome correspondence in Welsh or English

**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Rebecca Evans AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio

7 Hydref 2024

Annwyl Rebecca,

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Ynni Prydain Fawr

Fel y gwyddoch, mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Ynni Prydain Fawr wedi cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (y Pwyllgor) i'w ystyried. Y terfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad yw 15 Tachwedd 2024.

Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ei gyfarfod ar 3 Hydref 2024, a chytunodd yr Aelodau y dylwn i ysgrifennu atoch chi er mwyn gofyn am ragor o wybodaeth i lywio ein gwaith.

Ar adeg gosod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, cydnabu Llywodraeth Cymru fod gorgyffwrdd rhwng nodau a gweithrediad Ynni Prydain Fawr (Great British Energy, neu GBE) a sefydliad Trydan Gwyrdd Cymru. Dywedodd:

> *"...oherwydd lefel strategol uchel y Bil hwn a'r wybodaeth sydd ar gael am Ynni Prydain Fawr yn gyffredinol ar hyn o bryd, mae'n anodd gwybod beth fydd effaith gweithrediadau Ynni Prydain Fawr fel cwmni na beth fydd gwrthdaro'r gystadleuaeth bosib â Trydan Gwyrdd Cymru neu agweddau eraill ar swyddogaethau cyflenwi ynni Llywodraeth Cymru."*

1. Pa ystyriaeth yr ydych chi wedi'i rhoi i'r posibilrwydd o ddyblygu swyddogaethau Ynni Prydain Fawr a Trydan Gwyrdd Cymru, a sut y mae hyn yn dylanwadu ar eich penderfyniad ynghylch a ddylid argymell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i'r darpariaethau yn y Bil?

2. A oes gennych chi unrhyw bryderon y bydd gweithrediad Ynni Prydain Fawr yn effeithio ar allu Trydan Gwyrdd Cymru i gyflawni ei amcanion yn llwyddiannus?

3. Pa ystyriaeth yr ydych chi wedi'i rhoi i sut y bydd y cydadwaith rhwng Ynni Prydain Fawr a Trydan Gwyrdd Cymru yn cael ei reoli'n ymarferol?

4. A oes unrhyw amgylchiadau lle byddech chi'n ceisio darparu prosiectau yng Nghymru drwy Ynni Prydain fawr ac, os felly, beth fyddai'r meini prawf ar gyfer gwneud hynny?

Yn ôl y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, bwriad Llywodraeth y DU yw y bydd Ynni Prydain Fawr yn gallu darparu cymorth i "awdurdodau lleol a grwpiau cymunedol trwy amrywiaeth o fecanweithiau, gan gynnwys trwy ddarparu ymhlith pethau eraill, ecwiti, benthyciadau, grantiau, yswiriant a gwarantau".

4. A fyddai modd i chi egluro a oes unrhyw orgyffwrdd posibl rhwng cylch gwaith, nodau a gweithrediad Ynni Prydain Fawr a chylch gwaith, nodau a gweithrediad Ynni Cymru, Gwasanaeth Ynni Cymru ac Ynni Cymunedol Cymru?

Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r Bil ac Ynni Prydain Fawr yn gyffredinol, ond ei bod "am drafod ymhellach â Llywodraeth y DU ynghylch rôl Gweinidogion a Senedd Cymru yn y Bil".

5. A fyddai modd i chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw drafodaethau o'r fath?

Mae cymal 5 o'r Bil (sy'n ymwneud â blaenoriaethau a chynlluniau strategol) yn darparu bod rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol baratoi datganiad o'r blaenoriaethau strategol ar gyfer Ynni Prydain Fawr. Cyn gwneud datganiad, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru i'r graddau y mae'r datganiad yn ymwneud â materion sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Mae cymal 5(7) yn darparu y gellir bodloni'r ddyletswydd i ymgynghori drwy gynnal ymgynghoriad cyn i'r Ddeddf ddod i rym.

6. I ba raddau yr ydych chi'n ystyried ei bod yn briodol ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru, yn hytrach na cheisio cydsyniad Gweinidogion Cymru ar gyfer unrhyw flaenoriaethau strategol sy'n ymwneud â materion datganoledig?

7. Sut yr ydych chi wedi cyfrannu at y trafodaethau a gynhaliwyd hyd yn hyn ar flaenoriaethau strategol arfaethedig Ynni Prydain fawr?

8. Pa rôl fydd gan y Senedd o ran craffu ar y datganiad cyn iddo gael ei wneud, os yw'n ymwneud â materion sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd?

O ystyried yr amserlen y mae'r Pwyllgor yn gweithio tuag ati o ran cyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, byddwn yn ddiolchgar pe bai modd cael ymateb gennych cyn gynted â phosibl, ac erbyn 21 Hydref 2024 fan bellaf.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS,

Cadeirydd, y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
–
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
–
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Rebecca Evans AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio

10 Hydref 2024

Annwyl Rebecca

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Ynni Prydain Fawr

Yn ein cyfarfod ar 7 Hydref, buom yn ystyried Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil Ynni Prydain Fawr, a osodwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru ar y pryd, ym mis Awst.

Deallwn mai chi sy'n gyfrifol am y Memorandwm bellach. Felly, byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu rhagor o wybodaeth i helpu i lywio ein gwaith craffu.

Rydym yn nodi nad yw'r Memorandwm yn cynnwys adran sy'n nodi'r rhesymau dros wneud y darpariaethau perthnasol i Gymru yn y Bil, sydd yn aml wedi'u cynnwys mewn memoranda cydsyniad deddfwriaethol a osodir gan Lywodraeth Cymru. A allech chi, felly, roi esboniad o ran pam yr ystyrir ei bod yn briodol i'r ddarpariaeth berthnasol gael ei gwneud yn y Bil.

Hoffem hefyd drafod materion mewn perthynas â'r Memorandwm gyda chi mewn sesiwn dystiolaeth lafar. Byddem yn ddiolchgar pe gallai eich swyddogion gysylltu â thîm clercio'r Pwyllgor i wneud y trefniadau perthnasol er mwyn cynnal y sesiwn mewn da bryd cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r adroddiad, sef 15 Tachwedd 2024.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Llyr Gruffydd, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Yn gywir,

Mike Hedges
Cadeirydd

# Eitem 7

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 8

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon